

Cynllun Datblygu Lleol Amnewid Merthyr Tudful  
(2016-2031)

**ARCHWILIAD**

[www.merthyr.gov.uk/ldpexamination](http://www.merthyr.gov.uk/ldpexamination)

**NODIADAU CANLLAW**

**Arolygydd: Paul Selby BEng (Anrh) MSc MRTPI**

**1 CYFLWYNIAD**

- 1.1 Cefais fy mhenodi gan Weinidogion Llywodraeth Cymru i ymgymryd ag archwiliad annibynnol i mewn i gadernid a chydymffurfiaeth gyfreithiol Cynllun Datblygu Lleol Amnewid Merthyr Tudful (y 'Cynllun'). Mae'r nodyn hwn yn darparu canllaw i gyfranogwyr am y trefniadau gweithdrefnol a gweinyddol i'r archwiliad a'r gwrandawiadau.
- 1.2 Bydd y gwrandawiadau'n dechrau am **10:00am Ddydd Mawrth 25 Mehefin 2019**. Caiff y sesiynau eu cynnal yng **Nghanolfan Orbit, Parc Busnes Rhydycar, Merthyr Tudful CF48 1DL**.
- 1.3 Cafodd [Rhaglen Ddrafft y Gwrandawiadau](#) [ED003] â rhestr o'r cyfranogwyr arfaethedig ar gyfer pob sesiwn ei gyhoeddi. Fersiwn gychwynnol yw hon ac mae'r manylion yn debygol o newid. **Caiff rhaglen derfynol, sef rhestr orffenedig o gyfranogwyr y gwrandawriad a rhestr fanwl o'r materion, problemau a chwestiynau eu cyhoeddi ar neu cyn 10 Mai 2019.**

**2 SWYDDOG Y RHAGLEN**

- 2.1 Tracey Smith yw Swyddog y Rhaglen (SRh) a hi sy'n gyfrifol am weinyddu'r archwiliad. Mae hi'n ddiuedd, nid yw hi'n gyflogai i'r Cyngor ac mae'n gweithio o dan fy nghyfarwyddyd i. Mae ei rôl yn cynnwys cysylltu gyda'r holl bartion i sicrhau bod yr archwiliad yn rhedeg yn llyfn, rheoli argaeledd dogfennau'r archwiliad, y wefan a'r llyfrgell a gweithredu fel prif bwynt cyswllt ar gyfer yr holl faterion gweithdrefnol a gweinyddol. Dyma ei manylion:  
**E-bost:** [tracey.smith@merthyr.gov.uk](mailto:tracey.smith@merthyr.gov.uk)  
**Ffôn:** 07753 414078  
**Cyfeiriad:** At Sylw Swyddog y Rhaglen CDLI, Uned 5, Parc Busnes Triongl, Pentrebach, Merthyr Tudful CF48 4TQ.

**3 GWEFAN YR ARCHWILIAD**

- 3.1 Mae copïau o holl ddogfennau'r archwiliad ar gael i'w gweld ar y fewnwyd drwy dudalennau gwe [Llyfrgell yr Archwiliad](#) ar wefan yr archwiliad: [www.merthyr.gov.uk/ldpexamination](http://www.merthyr.gov.uk/ldpexamination).
- 3.2 Mae Llyfrgell yr Archwiliad yn cynnwys [Cyflwyno Dogfennau](#), sy'n cynnwys sail dystiolaeth y cyngor a dogfennau cefnogol; a [Dogfennau'r Archwiliad](#).

- 3.3 Caiff tudalennau gwe sesiynau gwrandawriad ar gyfer pob gwrandawriad sy'n manylu cyfranogwyr ac unrhyw ddogfennau perthnasol eu hychwanegu at wefan yr archwiliad yn eu tro.
- 3.4 Mae'r Cyngor yn darparu mynediad at y we yn Swyddfeydd y Cyngor, Uned 5, Parc Busnes Triongl, Pentrebach, Merthyr Tudful, CF48 4TQ ac yn y llyfrgelloedd canlynol:
- Llyfrgell Ganolog Merthyr Tudful, Stryd Fawr, CF47 8AF
  - Hyb Llyfrgell Rhydycar, Canolfan Hamdden Merthyr Tudful, CF48 1UT
  - Llyfrgell Treharris, Stryd Perrott, Treharris, CF46 5ET
  - Llyfrgell Dowlais, Stryd yr Eglwys, Dowlais, CF48 3HS
  - Llyfrgell Gymunedol Aberfan, Heol Pantglas, Aberfan, CF48 4QE
- 3.5 Dylai unrhyw gyfranogwr i'r gwrandawriad na all gael mynediad at y we gysylltu â Swyddog y Rhaglen fel y gellir gosod trefniadau amgen am fynediad at ddogfennau mewn lle.

#### 4 CWMPAS YR ARCHWILIAD A RÔL YR AROLYGYDD

- 4.1 Gwnaeth y Cyngor ymgynghori ar y Cynllun Adnau o 30 Mehefin tan 10 Medi 2018, ac ar Newidiadau â Ffocws i'r Cynllun o 21 Ionawr tan 4 Mawrth 2019. Y Cynllun y byddaf yn ei archwilio fydd [y Cynllun fel y'i diwygiwyd gan y Newidiadau â Ffocws \(Rhagfyr 2018\)](#) [Dogfennau Cefnogi 01].
- 4.2 Fy rôl yw asesu a yw'r Cynllun wedi cael ei baratoi yn unol â gofynion perthnasol cyfreithiol a gweithdrefnol, a phennu a yw'n gadarn. Fel yn ôl Adran 8 [Llawlyfr y Cynllun Datblygu Lleol Rhifyn 2 \(Awst 2015\)](#) <https://gov.wales/sites/default/files/publications/2018-11/local-development-plan-manual-edition-2-2015.pdf> Llywodraeth Cymru, byddaf yn asesu cadernid y Cynllun mewn perthynas â'r tri phrawf canlynol:
- **Prawf 1: A yw'r cynllun yn ffitio?** (hynny yw a yw'n glir fod Cynllun Datblygu Lleol (CDLI) yn gyson gyda'r cynlluniau eraill?)
  - **Prawf 2: A yw'r cynllun yn briodol?** (hynny yw a yw'r cynllun yn briodol i'r ardal yng ngoleuni'r dystiolaeth?)
  - **Prawf 3: A fydd y cynllun yn cyflenwi?** (hynny yw a yw'n debygol o fod yn effeithiol?)
- 4.3 Y man cychwyn ar gyfer yr archwiliad yw bod y Cyngor wedi cyflwyno Cynllun sy'n rhaid ei ystyried i fod yn gadarn ac yn cydymffurfio'n gyfreithiol. Rhaid i'r rheini sydd am weld newidiadau arddangos pam nad yw'r Cynllun yn bodloni'r meini prawf hyn.
- 4.4 Ceir dwy ffordd o wneud newidiadau sylweddol i'r cynllun a gyflwynwyd:
- Newidiadau i Faterion sy'n Codi (NFC), a gynigiwyd gan y Cyngor a'u hargymell gan yr Arolygydd; a
  - Newidiadau Arolygydd (NA), sy'n cael eu cynnig gan yr Arolygydd ac sy'n orfodol o ran y Cyngor.

- 4.5 Gallaf ond argymell NFCau neu NAau gorfodol os ydyn nhw'n angenrheidiol i ddatrys problemau a fyddai fel arall yn gwneud y cynllun a gyflwynwyd i beidio â bod yn gadarn neu i beidio â chydymffurfio'n gyfreithlon. Mae NFCau a NAau yn newid y Cynllun yn sylweddol neu ei bolisiau ac maen nhw fel arfer yn amodol ar ymgynghoriad yn dilyn y gwrandawiadau.
- 4.6 Yn ychwanegol gall y Cyngor ddewis cynnig mân newidiadau, er enghraifft, cywiro camgymeriadau neu wneud diweddariadau ffeithiol. Nid yw newidiadau o'r fath yn cael effaith sylweddol ar y Cynllun ac nid ydynt yn amodol ar archwiliad.

## 5 Y SESIYNAU GWRANDAWIAD

### Fformat

- 5.1 Mae'r [Rhaglen Ddrafft y Gwrandawiadau](#) [ED003] yn gosod allan trefn y gwrandawiadau ac yn dynodi'r cyfranogwyr ar gyfer pob sesiwn. Ar hyn o bryd mae hyn ar ffurf drafft a gall fod yn amodol i newid. Caiff y fersiwn derfynol ei chyflwyno cyn y gwrandawiadau a bydd yn cadarnhau rhestr o gyfranogwyr ym mhob sesiwn. Gadewch i Swyddog y Rhaglen wybod erbyn **10 Mai 2019** a ydych yn bwriadu cyfranogi mewn gwrandawiad neu a oes angen gwneud unrhyw addasiadau i hwyluso'ch presenoldeb.
- 5.2 Fel arfer bydd sesiynau gwrandawiad y bore yn dechrau am 10:00 ac yn gorffen tua 13:00 bob dydd oni nodir fel arall. Bydd sesiynau'r pŵn fel arfer yn dechrau am 14:00 ac yn gorffen tua 17:00 bob dydd oni nodir fel arall. Fel arfer bydd cinio rhwng 13:00 a 14:00 ac fel arfer bydd yna egwyl fer ganol y bore a chanol pŵn.
- 5.3 Bydd y gwrandawiadau ar ffurf trafodaeth bwrdd crwn strwythuredig a arweinir gennyf i. Ni fydd unrhyw gyflwyniad ffurfiol o ran tystiolaeth na chroesholi. Os fydd bargyfreithwyr a chyfreithwyr yn bresennol, byddant yn cael eu trin fel rhan o'r tîm neu sefydliad perthnasol.
- 5.4 Diben y gwrandawiadau yw fy ngalluogi i gael y wybodaeth sydd ei hangen arnaf i ddod i gasgliad am y materion sydd ger fy mron. **Caiff rhestr o'r materion a fanylir, problemau a chwestiynau eu cyhoeddi ar wefan yr archwiliad ar neu cyn 10 Mai 2019.** Bydd y rhain yn ffurfio agenda ar gyfer pob gwrandawiad, yn ogystal â sail ar gyfer unrhyw ddatganiadau ysgrifenedig pellach y bydd cyfranogwyr y gwrandawiad yn eu ceisio.
- 5.5 Ar ddiwedd pob gwrandawiad byddaf yn gallu cadarnhau gyda'r Cyngor unrhyw weithredu sydd angen iddo ei ystyried mewn ymateb i'r materion a godwyd yn ystod y drafodaeth. Caiff unrhyw 'bwyntiau gweithredu' y cytunwyd â nhw eu cyhoeddi yn [Llyfrgell yr Archwiliad](#).
- 5.6 Noder nad oes ar hyn o bryd unrhyw drafodaeth o hepgor safle/ dyraniad safle amgen wedi ei raglenni. Bydd y rheini sy'n hyrwyddo safleoedd o'r fath yn cael gwahoddiad i gyfranogi mewn trafodaethau sy'n ymwneud â

strategaeth y CDLI. Os wyf yn pennu fod yna angen am ddyraniadau safle pellach, gallai cynrychiolwyr perthnasol gael eu gwadd i wneud sylwadau llafar yn y gwrandawriad hwnnw.

### Cyfranogi

- 5.7 Mae'r sesiynau'n agored i unrhyw un eu harsylwi, gan gynnwys y rheini sy'n cefnogi'r Cynllun. Dim ond y rheini sydd wedi gwneud sylwadau oddi fewn i'r cyfnodau amser a ragnodwyd ac sy'n ceisio cael newidiadau i'r Cynllun mewn perthynas â'r materion i'w trafod sydd â'r hawl i gyfranogi mewn gwrandawriadau. Fodd bynnag, gallaf hefyd estyn gwahoddiad i gyfranogwyr ychwanegol os wyf yn ystyried hynny'n angenrheidiol.
- 5.8 Byddaf yn rhoddi'r un sylw i dystiolaeth lafar ag i dystiolaeth ysgrifenedig. Felly, nid oes angen cyfranogi mewn gwrandawriad oni bai eich bod chi'n bwriadu ymateb i'r pwyntiau a wnaed gan eraill. Caiff cyfranogwyr sydd wedi dynodi dymuniad i gael eu clywed y cyfle i wneud hynny, ond byddaf yn benodol wahodd tystiolaeth lafar neu ysgrifenedig pellach pan fyddaf yn ystyried ei fod yn angenrheidiol.
- 5.9 Byddaf yn disgwyl i gyfranogwyr mewn gwrandawriadau ymgyswngwyo'u hunain â dogfennau perthnasol ynghylch materion y drafodaeth, gan gynnwys [Dogfennau Cyflwyno](#) 'r Cyngor ac unrhyw ddatganiadau ysgrifenedig pellach. Buaswn hefyd yn annog cyfranogwyr i edrych ar [Lyfryn Cynllun Datblygu Lleol](#) Llywodraeth Cymru a [Chanllawiau Gweithdrefnol Archwiliadau](#) y Gyfarwyddiaeth Gynllunio cyn y gwrandawriadau.
- 5.10 Caiff cyfranogi yn y Gymraeg ei groesawu mewn gwrandawriadau. Pan fo un neu fwy o gyfranogwyr mewn gwrandawriad wedi mynegi dymuniad i gyfathrebu yn y Gymraeg, caiff cyfleusterau cyfieithu eu trefnu gan y Cyngor. Er mwyn osgoi oedi, bydd Swyddog y Rhaglen yn ceisio cadarnhau dewis iaith y cyfranogwyr cyn i sesiynau'r gwrandawriad ddiwydd.

### Datganiadau ysgrifenedig pellach

- 5.11 Bydd materion a gyhoeddwyd, problemau a chwestiynau yn arwain trafodaethau mewn gwrandawriadau. Gan y dylai cyfranogwyr fod eisoes wedi gosod allan eu hachos llawn yn eu sylwadau gwreiddiol, fel arfer, ni fyddai angen cynhyrchu datganiadau ysgrifenedig pellach. Fodd bynnag, os caiff datganiadau ysgrifenedig pellach eu cynhyrchu, dylai'r rhain:
- ddatgan ID Cynrychiolydd a rhif cynrychiolydd;
  - fod wedi eu cyfyngu i faterion cyhoeddus, problemau a chwestiynau ac un ai bod yn berthnasol i'w sylw gwreiddiol neu'n berthnasol i faterion perthnasol newydd sydd wedi codi ers i'r sylw gwreiddiol gael ei wneud; a
  - pheidio ag ailadrodd yr hyn oedd yn y sylwadau gwreiddiol.
- 5.12 Mae'r holl ddogfennau archwilio a chyflwyno ar gael ar y we, ni ddylai cyfranogwyr atodi darnau o'r dogfennau hyn at unrhyw ddatganiadau. Yn

Ile hynny, dylai datganiadau sy'n berthnasol i unrhyw un o'r dogfennau hyn gynnwys cyfeirnod perthnasol at rif tudalen neu baragraff.

- 5.13 Dylai datganiadau ysgrifenedig pellach gydymffurfio â'r canllawiau canlynol:
- Dylid cyflwyno datganiad ar wahân i bob gwrandawriad.
  - Dylai datganiadau fod yn glir, yn gryno a dim hwy na 3,000 gair ar gyfer pob pwnc. Ansawdd y rhesymoli yw'r hyn sy'n bwysig, nid maint y ddogfen.
  - Ni chaiff Atodiadau eu cynnwys yn y nifer cyfyngedig o eiriau, ond dim ond pan fyddant yn hanfodol y dylai'r rhain gael eu cyflwyno, gan wneud cyfeirnodau at y rhannau hynny o'r atodiadau y dibynnir arnynt.
  - Ni ddylai datganiadau gael eu cynhyrchu mewn fformat A4 ble y bo'n bosibl. Ar gyfer copïau caled, dylai tudalennau A3 gael eu plygu i A4.
- 5.14 Dylid derbyn y datganiadau erbyn y dyddiad targed a osodwyd (12 ganol dydd 11 Mehefin 2019). Mae'n annhebygol y caiff cyflwyniadau hwyr eu derbyn. Gall unrhyw ddatganiadau sy'n rhy hir neu sy'n cynnwys deunydd amherthnasol neu ailadroddus gael eu dychwelyd.
- 5.15 Yn wahanol i gyfranogwyr eraill, mae'n ofynnol bod y Cyngor yn ymateb i bob problem a chwestiwn ac felly nid yw'r terfyn geiriau o 3,000 yn berthnasol i'r Cyngor. Fodd bynnag, dylai unrhyw ddatganiadau fod mor gryno ag sy'n bosibl. Dylid defnyddio cyfeirnodau at dystiolaeth sy'n bodoli er mwyn osgoi ailadrodd mor aml ag sy'n bosibl.
- 5.16 Dylai fersiwn electronig a 2 gopi papur o unrhyw ddatganiadau ysgrifenedig pellach, gan gynnwys y Cyngor, gael eu hanfon i Swyddog y Rhaglen erbyn **12 ganol dydd ar 11 Mehefin 2019**.

## 6 DATGANIADAU TIR CYFFREDIN

- 6.1 Dylai unrhyw ddatganiadau tir cyffredin rhwng y Cyngor a chynrychiolwyr, neu rhwng unrhyw gynrychiolwyr eraill, sy'n cael eu paratoi i gynorthwyo'r archwiliad, gael eu cyflwyno i Swyddog y Rhaglen cyn gynted ag y maen nhw wedi eu cynhyrchu a chyrraedd **erbyn 12 ganol dydd ar 11 Mehefin 2019** ar gyfer yr holl faterion. Fel uchod, dylai hyn gynnwys fersiwn electronig a 2 gopi papur.

## 7 YMWELIADAU Â'R SAFLE

- 7.1 Gyhyd ag yr wyf yn ei ystyried ei fod yn angenrheidiol i asesu cadernid y Cynllun, byddaf yn ymweld â safleoedd perthnasol ac ardaloedd perthnasol cyn, yn ystod neu ar ôl y gwrandawriadau. Byddaf yn gwneud hyn ar fy mhen fy hun oni bai fod mynediad at dir preifat yn angenrheidiol.

## 8 CAU'R ARCHWILIAD

- 8.1 Ar ôl y gwrandawriadau, bydd yr archwiliad yn parhau ar agor nes bod f'adroddiad wedi ei gyflwyno i'r Cyngor. Ni chaiff unrhyw sylwadau na

thystiolaeth arall eu derbyn yn ystod y cyfnod hwn oni bai fy mod wedi gofyn amdanynt yn benodol.

## **9 GWYBODAETH BELLACH**

9.1 Gellir dod o hyd i wybodaeth bellach am baratoi ac archwilio Cynlluniau Lleol drwy ddefnyddio'r dolenni canlynol:

- Gwybodaeth Llywodraeth Cymru am y Cynlluniau Datblygu: [gov.wales/development-plans](http://gov.wales/development-plans)
- Polisi a chanllaw cenedlaethol Llywodraeth Cymru Welsh: [gov.wales/planning-policy-and-guidance-national-policy](http://gov.wales/planning-policy-and-guidance-national-policy)
- Canllawiau Gweithdrefnau Archwiliadau Arolygaeth Gynllunio y Cynllun Datblygu Lleol (2015): <https://gweddiill.gov.wales/docs/desh/publications/170503ldp-procedure-guidance-en.pdf>
- Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004, Rhan 6, Adranau 62-72 : [www.legislation.gov.uk/ukpga/2004/5/part/6/crossheading/plans](http://www.legislation.gov.uk/ukpga/2004/5/part/6/crossheading/plans)
- Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynllun Datblygu Lleol)(Cymru) 2005: [www.legislation.gov.uk/wsi/2005/2839/contents/made](http://www.legislation.gov.uk/wsi/2005/2839/contents/made)

*Paul Selby*  
AROLYGYDD